

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**



Adroddiad cynnydd chwarterol: Cynllun Corfforaethol 2016-19

Hydref - Rhagfyr 2018

Croeso.

Dyma'r trydydd adroddiad cynnydd ar gyfer y flwyddyn ariannol yma.

Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariad ar y meysydd gwaith y gwnaethoch ddweud wrthym sy'n bwysig i chi. Gydag eleni yn flwyddyn olaf ein Cynllun Corfforaethol presennol, rydym yn awyddus i barhau i sicrhau cynnydd a dangos sut ydym yn eich cefnogi. Rydym hefyd yn cynnwys adroddiad llawn ar y cyfryngau sy'n dangos sut y buom yn dylanwadu ar agenda'r cyfryngau hyd yma eleni.

Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r sector rydym yn y broses o baratoi ein Cynllun Corfforaethol am y tair blynedd nesaf a byddwn mewn sefyllfa i rannu hyn gyda chi yn y dyfodol agos.

Mae croeso mawr i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ar yr wybodaeth yn yr adroddiad cynnydd yma. Yn y cyfamser byddwn yn parhau i ddylanwadu, cysylltu, cefnogi a hysbysu - fel y gallwch chithau barhau i fuddsoddi mewn cymunedau a gwella bywydau.



Stuart Ropke
Prif Weithredydd

Ein Cenhadaeth.

- **Dylanwadu'n gadarnhaol ar bolisi Llywodraeth Cymru.**
- **Cefnogi a hyrwyddo llais ein haelodau.**
- **Siarad gydag un llais.**
- **Rhoi aelodau yng nghanol popeth a wnawn.**
- **Gweithio fel un tîm i gyflawni ein cenhadaeth.**

Ei Nod.

Erbyn 2019 bydd aelodau yn ein hystyried yn gorff ymbarél gwerthfawr ac effeithlon iawn. Byddwn yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth ein haelodaeth a byddwn wedi helpu i lunio'r amgylchedd allanol i'w galluogi i ffynnu.

Ni fydd y sefydliad mynd-ato ar faterion tai yng Nghymru, partner o ddewis ar gyfer rhanddeiliaid, ac yn cael ein cydnabod a'n gwerthfawrogi gan Lywodraeth Cymru fel sector sy'n cyflawni.

Mae ein gwaith rhwng 2016-2019 yn dod dan bedair thema strategol.

1. Cefnogi aelodau i fod yn fusnesau cryf.
2. Gtalluogi aelodau i ddarparu mwy o gartrefi o ansawdd da sydd wir yn fforddiadwy.
3. Cefnogi aelodau i adeiladu cymunedau cynaliadwy y mae pobol eisiau byn ynddynt.
4. Rhedeg sefydliad grych i aelodau.

Cipolwg ar mis Hydref - mis Rhagfyr 2018

- Gwnaed cynnydd sylweddol at wella'r Credyd Cynhwysol a lliniaru effeithiau diwygio llesiant ar y tenantiaid mwyaf bregus.
- Buom yn gweithio gyda gwirfoddolwyr ar bob un o ddeg ffrwd gwaith yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy i roi sylwadau i'r sector a llunio canlyniadau polisi'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy.
- Fe wnaethom gomisiynu adroddiad gan Beaufort, sy'n dangos i'r sector wario dros £1.2 biliwn yn 2017/18.
- Cymerodd 36 cymdeithas tai ran yn yr adroddiad meincnodi blynyddol ar adnoddau dynol a gynhyrchwn mewn cysylltiad â Turning Point HR ar ran y sector.
- Roeddem yn falch i lansio pecyn hyfforddiant llywodraethiant a ddatblygwyd ar gyfer y sector.
- Fe wnaethom gynnal digwyddiad rhwydweithio i aelodau bwrdd gyda 60 o aelodau Bwrdd yn bresennol.
- Fe wnaethom lansio ein podlediad newydd 'Trafod Tai', fydd yn trin materion yn effeithio ar dai cymdeithasol.

Themâu:

1.

2.

3.

4.

Adolygiad o Dai Fforddiadwy

Yn dilyn cau'r Galwad am Dystiolaeth, bu'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy yn gweithio gyda'r deg ffrwd gwaith i adolygu'r ymatebion a gafwyd a datblygu argymhellion i'r panel eu hystyried. Bu CCC yn gweithio gyda'n gwirfoddolwyr ar bob un o'r ffrydiau gwaith i gyflwyno sylwadau i'r sector a llunio canlyniadau polisi yr Adolygiad.

Mae rhestr o'n gwirfoddolwyr ffrydiau gwaith ar gael **yma**.



Cyfarwyddydd Cynorthwyol Polisi a Materion Cyhoeddus
Aaron Hill

✉ aaron-hill@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4820

🐦 @AaronCHC

Themâu:

3.

Llesiant

Gwelodd Chwarter 3 gynnydd sylweddol tuag at wella Credyd Cynhwysol a lliniaru effeithiau diwygio Llesiant ar y tenantiaid mwyaf bregus. Roedd Cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnwys ystod o fesurau i wella Credyd Cynhwysol, yn cynnwys cynnydd i'r lwfans gwaith, gofyniad allweddol yn ymgyrch Pump Gofyniad y Pedwar Ffederasiwn.

Dechreuodd gwaith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddylanwadu ar ddyluniad y broses Ymfudo a Reolir sydd i ddechrau ar raddfa fach ym mis Gorffennaf 2019. Dywedodd y Grŵp Cyflenwi Strategol Llesiant wrthym mai'r flaenoriaeth allweddol ar gyfer y broses hon yw rhannu data gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn bwysicaf oll gwybod pryd y gofynnir i denantiaid hawlio Credyd Cynhwysol. Aethpwyd â'r gofyniad hwn ymlaen ymysg eraill yn uniongyrchol at y rhai sy'n cynllunio'r Credyd Cynhwysol, ac i weinidogion a gwleidyddion.

Cafodd Gwasanaeth Llawn Credyd Cynhwysol ei ymestyn yn ddaearyddol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig, ym mis Rhagfyr yn dilyn lobio llwyddiannus gan CCC i sicrhau bod y system Gymraeg yn weithredol cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol yn yr ardaloedd lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Will Atkinson

✉ will-atkinson@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4815 | 07557 650386

🐦 @WillA_CHC

Themâu:

1.

2.

3.

Cynllunio

Gwelodd Chwarter 3 arafu bach yng ngwaith Llywodraeth Cymru ym maes Cynllunio, yn dilyn ymgynghoriadau ar Bolisi Cynllunio Cymru, Opsiwn a Ffafrir y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 yn gynharach eleni. Fe wnaethom gyflwyno ymateb ein sector i'r ymgynghoriad ar ddarparu Cynlluniau Datblygu Lleol ym mis Hydref, lle gwnaethom ailadrodd ein safbwynt ar ddatgymhwysp paragraff 6.2 TAN 1 dros dro, a disgwyliwn ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, cafodd Arup eu penodi gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil ar y dull gweithredu rhanbarthol a gynigir yn y Fframwaith newydd. Mynychodd cynrychiolwyr CCC gyfres o weithdai ymchwil yn edrych ar safbwyntiau rhanbarthol a gwledig.

Hefyd yn y chwarter hwn, cyfarfu CCC gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (POSW) i ymchwilio ffyrdd i wella gweithio rhwng cymdeithasau tai ac awdurdodau cynllunio lleol. Rydym wedi dynodi materion blaenoriaeth allweddol i'w datblygu, a bydd cyfleoedd i aelodau rannu eu sylwadau yn y dyfodol.



Swyddog Polisi
Sarah Scotcher

✉ sarah-scotcher@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4802 | 07469 147485

🐦 @Sarah_CHC

Themâu:

3.

Rhentu Cartrefi

Fe wnaethom gynhyrchu **papur gwybodaeth** yn diweddar ar Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016 i hysbysu aelodau ar gynnydd gweithredu'r Ddeddf. Gyda'ch help chi, fe wnaethom gyflwyno ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 - **Rheoliadau'n cyfeirio at yr ymgynghoriad ar Ddarpariaethau Atodol**, gan dynnu sylw at yr hyn yr hoffem gael ei gynnwys yn narpariaethau atodol y contractau. Cadwch olwg ar ddiweddariadau ar ein Rhwydwaith Yammer Rhentu Cartrefi i gael mwy o ddatblygiadau ar weithrediad y Ddeddf hon.



Swyddog Polisi
Selina Moyo

✉ selina-moyo@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4807 | 07341 730404

🐦 @Selina_CHC

Themâu:

1.

3.

4.

Diogelwch Tân

Parhaodd diogelwch tenantiaid, staff ac adeiladau yn brif flaenoriaeth drwy gydol y chwarter, gyda chanfyddiadau Adolygiad Hackitt a'r ymchwiliad sy'n parhau ar drychineb Grenfell yn dylanwadu ar bolisi yng Nghymru. Defnyddiwyd ein lle ar Grŵp Arbenigol Diogelwch Adeiladu Llywodraeth Cymru i sicrhau fod gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yn clywed safbwyntiau cymdeithasau tai ar faterion yn effeithio ar ddiogelwch tenantiaid.

Gwelodd y chwarter hwn gynnydd tuag at sicrhau cydymffurfiaeth drysau tân ac adfer drysau heb fod yn cydymffurfio a gyflenwyd i gymdeithasau tai. Mae nifer o wneuthurwyr bellach wedi dechrau cyflenwi drysau cyfansawdd a brofwyd yn ddigonol, gan ganiatáu amnewid drysau nad oeddent yn cydymffurfio. Mae ein lobio ar y cyd gyda'r LGA, WLGA a'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol wedi rhoi pwysau ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i hwyluso'r broses o weithio gyda gwneuthurwyr a chyflenwyr i adfer y sefyllfa gyda chwsmeriaid a gafodd ddrysau heb fod yn cydymffurfio.

Mae'r cynnydd tuag at sefydlu Cynllun Prif Awdurdod Tân ar gyfer cymdeithasau tai Cymru wedi parhau, gyda dethol Gwasanaeth Tân ac Achub a ffafrir.

Mae ein Grŵp Cyflenwi Strategol Diogelwch Tân yn parhau i gefnogi ein gwaith a sicrhau y caiff arfer da ei rannu gyda'n holl aelodau.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Will Atkinson

✉ will-atkinson@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4815 | 07557 650386

🐦 @WillIA_CHC

Themâu:

2.

3.

Tai â Chymorth

Yn dilyn yr etholiadau i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, mae gennym bellach gynrychiolaeth lawn o'r sector tai ar bob un ohonynt. Mae'r Pwyllgorau hyn yn gyfrifol am gynhyrchu cynllun strategol ar gyfer gwasanaethau Cefnogi Pobl. Mae hyn yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau lleol ac yn dynodi'r ffordd fwyaf effeithlon i ddiwallu anghenion lleol. Er na fydd cyllid Cefnogi Pobl mwyach yn parhau yn ei ffurf bresennol, bydd y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn hanfodol wrth sicrhau trosglwyddo llyfn i'r system grant newydd.

Yn lle cyllid Cefnogi Pobl a Grant Atal Digartrefedd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £126.8m i Grant Cymorth Tai newydd i ddarparu cymorth ar ddigartrefedd a chymorth cysylltiedig â thai. Mae CCC wedi sicrhau lle ar grŵp llywio Llywodraeth Cymru i ddatblygu llywodraethiant a'r seilwaith o amgylch y grant newydd.

Yn dilyn lobio gan CCC, yn y chwarter hwn hefyd cafodd dogn gyntaf cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Tai yn Gyntaf ei ryddhau. Rydym yn falch i weld nifer o aelodau yn cael mynediad i'r cyllid ac yn ffurfio cynlluniau ar y cyd i gyflawni prosiectau Tai yn Gyntaf ar draws Cymru.



Swyddog Polisi
Joe Frampton

✉ joe-frampton@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4806 | 07855 712833

🐦 @JoeFramptonCF

Themâu:

3.

Effaith Economaidd Gymdeithasol Cymdeithasau Tai a Sefydliadau Cymunedol Cydfuddiannol

Comisiynodd CCC adroddiad gan Beaufort, sy'n dangos rôl hanfodol cymdeithasau tai Cymru yn economi Cymru, gyda gwariant o dros £1.2 biliwn yn 2017/18.

Dengys yr adroddiad i 84% o'r holl wariant gan gymdeithasau tai Cymru aros yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y gwerth ychwanegol gros i economi Cymru yn £886 miliwn, 20% yn uwch na'r llynedd.

Cyflwynodd Cymdeithasau Tai Cymru dros £23m o brosiectau adfywio cymunedol y llynedd yn ogystal â darparu cartrefi. Mae'r prosiectau hyn yn creu cymunedau cydlynol, yn gostwng anghydraddoldeb ac yn rhoi cyfleoedd i denantiaid, gan arddangos ymrwymiad y sector tai i gyflawni gweledigaeth Gorwelion Tai o Gymru lle mae cartref da yn hael sylfaenol i bawb.



Rheolydd Polisi a Rhaglenni
Will Atkinson

✉ will-atkinson@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4815 | 07557 650386

🐦 @WillIA_CHC

Themâu:

4.

Adroddiad Tryloywder Tâl Prif Swyddogion Gweithredol ac Arolwg Meincnodi Adnoddau Dynol y Sector

Diolch yn fawr iawn i'r 36 cymdeithas tai a gymerodd ran yn ein harolwg meincnodi adnoddau dynol blynyddol a gynhyrchwn mewn cysylltiad gyda Turning Point HR ar ran y sector. Mae'r arolwg yn edrych ar ddangosyddion a thueddiadau allweddol yn cynnwys salwch, trosiant llafur, gwariant ar Ddysgu a Datblygu, cyfansoddiad Byrddau, telerau ac amodau, cymharu tâl a phensiynau a llawer mwy. I gael copi, cysylltwch os gwelwch yn dda â Phillipa Knowles phillipa-knowles@chcymru.org.uk

Yn ogystal â'r adroddiad Meincnodi Adnoddau Dynol, mae CCC hefyd wedi cynhyrchu Adroddiad Tryloywder Tâl Prif Swyddogion Gweithredol mewn ymateb i Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Dosberthir hwn i'r sector ym mis Ionawr 2019.



Cyfarwyddydd Adnoddau a Datblygu Sefydliadol
Phillipa Knowles

✉ phillipa-knowles@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4813 | 07876 240198

🐦 @philchcymru

Themâu:

1.

3.

4.

Cynadleddau

Gyda dail yr hydref wedi dechrau syrthio a thymor y cynadleddau ar ein anterth, cynhaliwyd dwy o'n cynadleddau mwyaf poblogaidd.

Ar 11/12 Hydref, dychwelodd y Gynhadledd Tai Fawr a'r Parth Datblygu

i Westy'r Metropole, Llandrindod. Unwaith eto eleni bu cynnydd yn nifer y cynrychiolwyr a'r arddangoswyr ac roedd cyffro go iawn yn y digwyddiad. Thema'r gynhadledd oedd 'Twf ac Arallgyfeirio gyda Diben Cymdeithasol' a rhoddodd siaradwyr ac arweinwyr gweithdai sylw i ystod o bynciau yn cynnwys ymestyn y Credyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a lansio ein hymchwil ddiweddaraf ar effaith Cymdeithasau Tai Cymru. Cafodd cynrychiolwyr hefyd wybodaeth i'w helpu i baratoi ar gyfer rhaglenni newydd a deddfwriaeth fel Rhenti Cartrefi a dysgu o gynnyrch blaengar yn cynnwys Rhentu i Brynu a Rhan-berchnogaeth.

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol CCC, y prif ddigwyddiad yng nghalendr CCC, ar 15/16 Tachwedd yng Ngwesty Holland House. Roeddent yn ddau ddiwrnod gwych yn llawn dop o siaradwyr cyffrous a sesiynau ymarferol. Dechreuodd y ddeuddydd gyda'r economegydd Trevor Williams yn rhoi ei ddehongliad o economi Prydain a Brexit, tra siaradodd y newyddiadurwraig Isabel Hardman am yr hyn sy'n gwirioneddol gymell pobl yn y senedd, a thrafod beth fedrwn ei wneud i wella bywyd pawb - pe byddai'r gwleidyddion cywir gennym. Daeth Diwrnod 1 i ben gyda Darren McGarvey, a fu'n edrych ar ddieter dosbarth gweithiol, deinameg dosbarth grym a chanfyddiadau mewn dosbarthiadau cymdeithasol. Os hoffech glywed mwy gan Darren, gallwch lawrlwytho podlediad newydd Trafod Tai, sydd ar gael **yma**.

Ffocws diwrnod 2 oedd creu newidiadau. Clywsom gan Lynn Pamment, Cadeirydd y Panel Adolygu Tai Fforddiadwy, a ddilynwyd gan weithdai cyfranogol. Rhoddodd Lucy Adams, Prif Swyddog Gweithredol Disruptive HR a'r dyfodolydd Shivvy Jervis gynghorion ymarferol i gynrychiolwyr ar arwain eu sefydliadau i'r dyfodol. Nodwedd newydd yn y gynhadledd oedd

ein stiwdio fideo yng ngofal Tantrwm, a bydd cyfweiliadau gyda siaradwyr, cynrychiolwyr ac arddangoswyr ar gael yn fuan. Mae fideo trosolwg ar gael **yma**.

Hoffem ddiolch i'r holl siaradwyr, noddwyr ac arddangoswyr ac yn arbennig y cynrychiolwyr a fynychodd yr holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan CCC yn 2018. Ni fyddent yn gymaint o lwyddiant heb eich cefnogaeth chi.

Rydym yn awr yn edrych ymlaen at 2019 ac i ddechrau'r Flwyddyn Newydd mae gennym ein Cynhadledd Cyfathrebu, fydd yn canolbwyntio ar Gyfathrebu yn yr Oes Ddigidol.

I ymuno â ni yn y gynhadledd gyffrous yma ar 24 Ionawr 2019 yng Ngwesty Village, Abertawe, gallwch archebu eich lle **yma**.

Mae gan ein Cynhadledd Llywodraethiant gartref newydd eleni ac fe'i cynhelir ar 7/8 Mawrth yng Nghyrrchfan y Fro, Hensol, Bro Morgannwg. Bydd y gynhadledd yn rhoi'r arfau i gynrychiolwyr ysbrydoli fel ceidwaid eu sefydliad a sgiliau i ddiogelu eu busnes i'r dyfodol ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Derbynnir archebion yn awr.



Swyddog Digwyddiadau a Busnes
Rhian Robinson

✉ rhian-robinson@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4814

🐦 @CHCEvents

Themâu:

1.

4.

Hyfforddiant Ar-lein

Mae ein system hyfforddiant ar-lein yn llwyddiannus tu hwnt o fewn y sector a chaiff ei defnyddio'n helaeth gan lawer o'n haelodau yn cynnwys: Cymdeithas Tai Newydd, Grŵp Tai Cadarn, Cartrefi Conwy, Cymdeithas Tai Coastal, Trivallis, Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf, FHA Cymru a Cartrefi Dinas Casnewydd.

Rydym hefyd wedi ychwanegu pump cwrs newydd a gafodd eu teilwra'n benodol gan arbenigwyr yn CCC ar gyfer y sector, sef:

- **Atal Ôl-ddyledion - Modelau Ymarfer Cadarnhaol Cyn-tenantiaeth**
- **Ffactorau Hollbwysig yn Dylanwadu ar Ôl-ddyledion Rhent**
- **Rheoli ac Ad-ennill Ôl-ddyledion Rhent**
- **Cyflwr Gwael - A yw'ch Tŷ mewn Trefn?**
- **Cyflwyniad i ymgyfraniad preswylwyr**

Mae mwy o wybodaeth ar ein cyrsiau hyfforddiant ar-lein ar gael **yma**.



Swyddog Dysgu a Datblygu
Lesley Smith

✉ lesley-smith@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4809 | 07870 946421

🐦 @Lesley_CHC

Themâu:

4.

Diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol

Diolch i'r rhai ohonoch a gymerodd ran yn ein sioeau teithio ymgynghori a gweminarau y chwarter hwn. Roedd eich cyfraniadau yn wirioneddol werthfawr wrth sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir. Rydym yn awr yng nghamau olaf datblygu a byddwn yn lansio hyn, ynghyd â'n cynnig i aelodau, ym mis Mawrth.

Cynnig i fyrddau:

Fe wnaethom gynnal ein hail ddigwyddiad rhwydweithio i aelodau bwrdd y chwarter hwn, rhan o'n cynnig ehangach **i aelodau bwrdd**. Gyda bron 60 o aelodau bwrdd yn bresennol, roedd yr agenda yn cynnwys cyflwyniad ar ddyfodol gwaith a diweddariad gan Stuart Ropke.

Y dyddiadau yn 2019 yw:

- 7 Mawrth (5:30 – 6:30pm) Gwesty'r Fro, Bro Morgannwg
- 5 Mehefin (5:30 – 8pm), Hugh James, Caerdydd
- 20 Mehefin (5:30 – 8pm), Gogledd Cymru, lleoliad i'w gadarnhau
- 3 Medi (5:30 – 8pm), Hugh James, Caerdydd
- 3 Rhagfyr (5:30 – 8pm), Hugh James, Caerdydd

Rydym hefyd wedi trefnu grŵp Yammer caeedig ar gyfer aelodau bwrdd. Os hoffech ymuno, cysylltwch ag Elinor-george@chcymru.org.uk os gwelwch yn dda.



Cyfarwyddyd Cynorthwyl, Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
Edwina O'Hart

✉ edwina-o'hart@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4808 | 07791 898497

🐦 @EdwinaOHart

Cynadleddau

Bu'n chwarter prysur i dîm cyfathrebu CCC. Rydym wedi parhau i ddylanwadu ar yr agenda newyddion yn ystod y tri mis diwethaf, yn rhagweithiol a hefyd yn ymatebol, a gallwch weld ein hadroddiad cyfryngau diweddaraf **yma**.

Roedd y sylw yn cynnwys trosolwg yn Inside Housing o araith Stuart Ropke yn ein Cynhadledd Flynyddol a darn sylwadau gan Will Atkinson ar 'Click on Wales' ar effaith Credyd Cynhwysol. Siaradodd Clarissa Corbisiero-Peters ar BBC Sunday Politics ar ymrwymiad Ceidwadwyr Cymru i ddyblu nifer y cartrefi newydd a gaiff eu hadeiladu.

Rydym yn parhau i weithio gyda'n Grŵp Cyflenwi Strategol Cysylltiadau Cyhoeddus a Grŵp Cyflenwi Strategol Adnoddau Dynol i ddatblygu rhai ymgyrchoedd cyffrous, yn cynnwys newid canfyddiadau tenantiaid mewn tai cymdeithasol a recriwtio i'r sector. Caiff mwy o wybodaeth ei rhannu'n fuan. Cofiwch yr ychwanegir deunydd newydd yn rheolaidd ar **ein blog**. Gadewch i ni wybod os hoffech gyfrannu. Rydym bob amser yn edrych am straeon diddorol i ysgrifennu amdanynt!

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at ein Cynhadledd Cyfathrebu. Bydd yn ddiwrnod ymarferol o ddosbarthiadau meistr gydag arbenigwyr yn amrywio o strategwyr brand i wneuthurwyr podlediadau yn rhoi'r sgiliau mae cynrychiolwyr eu hangen i ffynnu fel swyddog cyfathrebu digidol yn gyntaf.

Sesiynau'n cynnwys:

- **Cyflwyniad ar greu podlediad – Bengo Media**
- **A yw'ch brand yn sefyll allan? Sarah Burley, Sefydlydd John&Jane**
- **Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynyddu presenoldeb a chyrraedd brand – Jo-Gregory Brough, Cyfarwydd Cyfathrebu a Dirnadaeth Myfyrwyr yn Undeb Myfyrwyr Loughborough**

Mae'r rhaglen lawn **yma**. Archebwch **yma**.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi neu'ch timau yno.

Rydym hefyd yn falch iawn i gyhoeddi lansiad ei podlediad newydd 'Trafod Tai', fydd yn trin materion yn effeithio ar dai cymdeithasol. Nod y podlediad yw dangos fod y sector yn ymwneud â mwy na dim ond brics a mortar - mae ynglŷn ag adeiladu cymunedau a pharatoi pobl ar gyfer y dyfodol. Yn y bennod gyntaf buom yn siarad gyda Darren McGarvey, awdur llyfr Poverty Safari a enillodd wobr Orwell, am droseddau cylllell, Tŵr Grenfell a dicter dosbarth gweithiol. Mae'r podlediad llawn ar gael **yma**.



Rheolydd Cyfathrebu a Marchnata
Rebecca Goodhand
✉ rebecca-goodhand@hcymru.org.uk
☎ 029 2067 4804
🐦 @RebeccaG_CHC

Themâu:

4.

Recriwtio a Diweddariad Staff

Fe wnaethom groesawu **Clarissa Corbisiero-Peters** yn ôl ym mis Hydref, yn dilyn cyfnod mamolaeth ar ôl geni ei mab, **Tomos**.

Penodwyd yr aelodau Bwrdd newydd yn dilyn y broses recriwtio Bwrdd a gynhaliwyd gan ein Pwyllgor Enwebiadau a chadarnhad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:

Andrew Martyn Jones (Annibynnol) Cadeirydd

Andrew Vye - Pobl

Kath Palmer – Hendre

Jonathan Huish – Trivallis

Rydym hefyd yn falch iawn i goesawu Sian Thomas o Gymdeithas Tai Cynon Taf fel ein Haelod Cyfetholedig newydd. Mae'r holl leoedd ar y Bwrdd yn awr wedi eu llenwi.



Cyfarwyddydd Adnoddau a Datblygu Sefydliadol
Phillipa Knowles

✉ phillipa-knowles@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4813 | 07876 240198

🐦 @philchcymru

Themâu:

1.

4.

Hyfforddiant Llywodraethiant

Ar ôl proses ddatblygu hir, rydym yn falch i lansio pecyn hyfforddiant llywodraethiant a ddatblygwyd ar gyfer y sector tai yng Nghymru. Mae'r pecyn yn ganlyniad ymchwil helaeth a gynhaliwyd o fewn y sector ac mae'n seiliedig ar y Cod Llywodraethiant https://chcymru.org.uk/comms/CHC-COG__ENG.pdf a gyhoeddodd CCC yn gynharach eleni. Mae'r pecyn wedi'i rannu yn pump modiwl sydd i gyd wedi'u hanelu at aelodau bwrdd, cadeiryddion ac is-gadeiryddion ar wahanol gamau eu gyrfa ar y bwrdd. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar y **wefan**.



Swyddog Dysgu a Datblygu
Lesley Smith

✉ lesley-smith@chcymru.org.uk

☎ 029 2067 4809 | 07870 946421

🐦 @Lesley_CHC

Tan y chwarter nesa'.

Fel y gwelwch, bu'n dri ms prysur i'r tîm yn CCC.

Bydd 2019 yn gweld lansiad ein cynllun corfforaethol newydd, ochr yn ochr â'n cynnig newydd i aelodau. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ein cynnydd ar eich rhan bob chwarter.

Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â'r aelod perthnasol os staff yn CCC os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Cysylltwch â ni.



chcymru.org.uk



twitter.com/CHCymru



enquiries@chcymru.org.uk



02920 674800